# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 7 Gorffennaf 2015

Amser: 09.02 - 10.47

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/2927

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
| --- | --- |
| Aelodau'r Cynulliad: | Darren Millar AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Jocelyn Davies AC<br>Mike Hedges AC<br>Ann Jones AC (yn lle Sandy Mewies AC)<br>Julie Morgan AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Aled Roberts AC |
| Tystion: | Simon Jones, Llywodraeth Cymru<br>James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Michael Kay (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Sophie Knott (Cynghorwr Arbenigol)<br>Jeremy Morgan (Cynghorwr Arbenigol) |

| | |
|---|---|
| | Matthew Mortlock (Cynghorwr Arbenigol)<br><br>Mike Usher (Cynghorwr Arbenigol) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Sandy Mewies. Roedd Ann Jones yn dirprwyo ar ei rhan.

## 2 Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Seilwaith Band Eang y Genhedlaeth Nesaf: Sesiwn dystiolaeth 2

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan James Price, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, Llywodraeth Cymru a Simon Jones, Cyfarwyddwr, Cyllid a Pherfformiad, Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, Llywodraeth Cymru fel rhan o'i ymchwiliad i Fuddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Seilwaith Band Eang y Genhedlaeth Nesaf.

2.2 Cytunodd James Price i anfon nodyn ar:

- Restr o leoliadau lle mae problemau o ran mynediad wedi bod yn anodd i Openreach
- Beth y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl a gaiff ei ddarparu fel rhan o'r gyllideb farchnata o £1.7m, a sut y caiff ei defnyddio ar sail ddaearyddol.
- Hawliau datblygu a ganiateir
- Cyflwyno Ffeibr yn Ôl y Galw
- Lleoliadau ble y bydd contractau ychwanegol yn ofynnol yn dilyn y cyhoeddiad a ddisgwylir ar brosiect 'Mewnlenwi Cyfnod 2'

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**3.1 Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon: Llythyr gan Owen Evans, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Adran Addysg a Sgiliau (29 Mehefin 2015)**

**3.2 Diwygio Lles: Dogfen Bolisi Taliadau Tai Dewisol Cymru Gyfan**

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

4.1 Cytunwyd ar y cynnig.

## 5 Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Seilwaith Band Eang y Genhedlaeth Nesaf: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n Wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru: Trafod yr ohebiaeth.

6.1 Nododd yr Aelodau'r llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a chytunodd y dylai'r Cadeirydd gopïo'r ohebiaeth ddiweddar ag Owen Evans, y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol sydd newydd ei benodi, sydd â chyfrifoldeb dros hyn, yn gofyn am ei ystyriaethau ynghylch y cwestiynau a ofynnwyd. Bydd y Pwyllgor yn ystyried y mater hwn eto ym mis Medi.

## 7

## Blaenraglen waith

7.1 Nodwyd y papur gan yr Aelodau. Gofynnwyd i'r Clercod, fodd bynnag, ail-drefnu'r cyfarfod a awgrymwyd y dylid ei gynnal ddydd Llun 28 Medi i ddydd Llun arall, oherwydd bod nifer o'r Aelodau i ffwrdd.

7.2 Cytunodd yr Aelodau â'r rhestr o gyrff a awgrymwyd ar gyfer craffu ar gyfrifon, a chytunodd i baratoi papur etifeddiaeth hefyd.

7.3 Nododd yr Aelodau gais y Cadeirydd am sesiwn ymadawol gyda'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol, o gofio'r ymadawiadau diweddar o Lywodraeth Cymru. Dywedwyd wrth y Cadeirydd nad oedd sesiwn ymadawol gyda'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol a oedd yn gadael yn briodol oherwydd bod amgylchiadau eu hymadawiad yn wahanol iawn i ymadawiadau Cyfarwyddwyr Cyffredinol blaenorol.